**P-05-1123 Codi blaenoriaeth gweithwyr allweddol nad ydynt yn gweithio i'r GIG sy'n wynebu'r cyhoedd wrth gyflwyno'r brechlyn ar gyfer Covid-19**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Timothy Richard Woods, ar ôl casglu cyfanswm o 117 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Rwy'n beiriannydd telathrebu ac wedi gweithio fel gweithiwr allweddol drwy gydol y pandemig. Fel rhan o'm swydd, mae disgwyl i mi fynd i mewn i dai dan ganllawiau llym i gynnal gwasanaethau hanfodol megis band eang. Rai dyddiau, gallaf fynd i mewn i eiddo tri neu bedwar cwsmer. Gyda straen newydd, mwy heintus o COVID-19 wedi'i gofnodi'n ddiweddar yng Nghymru, mae angen brechu gweithwyr allweddol eraill y tu allan i'r GIG rhag COVID-19 yn gynnar neu maent yn wynebu risg uwch o heintio'r cyhoedd neu ddal y feirws.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru